# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 Ionawr 2020

Neuadd Ffostrasol 7.30 y.h.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Mark Davies (Cadeirydd)<br>Cyng Julie Davies<br>Cyng Ceri Jones<br>Cyng Emyr Jones | Cyng Owenna Davies<br>Cyng Llyr Evans<br>Cyng Teifi Evans |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Roger Davies<br>Cyng Maldwyn Lewis | Cyng Evan John Jones |
| **Clerc** | Lynda Williams | |

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1. **Ymddiheuriadau** | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Roger Davies, Cyng Evan John Jones a Chyng Maldwyn Lewis | | |
| 2. **Cadarnhau cofnodion** | • Cofnodion 3/12/19 – Cadarnhawyd gan Julie Davies; eiliwyd gan Ceri Jones. | | |
| 3. **Datgelu Buddiannau** | Datgelwyd budd gan CJ mewn perthynas ag eitem 14 ar yr agenda – Ceisiadau Ariannol, mewn perthynas â Chlwb Bowls Rhydlewis a Neuadd Rhydlewis; llanwyd a llofnodwyd y ffurflen berthnasol | | |
| 4. **Materion yn Codi o'r cofnodion** | • Ffurflen llofnodwyr banc i'w dychwelyd i Nat West<br>• Nid yw Nat West wedi diwygio manylion y llofnodwyr/cyfeiriad o hyd. Bydd y clerc yn parhau i ofyn iddynt wneud hyn.<br>• Eisteddfod 2020 – er bod y targed lleol wedi cael ei godi i £400,000 nawr, ac y bwriedir parhau gyda'r gweithgareddau codi arian, ni ddisgwylir i ardaloedd unigol godi arian ychwanegol. Trefnwyd cyngerdd yn Neuadd Coed-y-bryn ar 25 Ionawr. Mae Merched Y Wawr yn trefnu 'Noson Gawl' hefyd ar 10 Mawrth.<br>• Soniodd OD bod Ysgol Bro Teifi wedi cael adroddiad rhagorol gan Estyn (gweler cofnodion mis Rhagfyr) | JD & LE<br><br>Clerc I ofyn eto | |

| | | |
|---|---|---|
| **5. Adroddiad a Diweddariad gan y Cynghorydd Sir** | • Yn absenoldeb Cyng M Lewis, ni chafwyd adroddiad. | |
| 6. **Gohebiaeth** | • Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol – dim enwebiadau | OD |
| | • Dathliadau Diwrnod VE. Bydd OD yn rhoi'r wybodaeth i'r 'Clwb Hanes'. Soniodd TE y cynhelir digwyddiadau yn rheolaidd yng Ngwersyll Carcharorion Rhyfel Henllan. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cefnogi unrhyw ddigwyddiad(au) a drefnir. Ychwanegir copi o'r ddogfen i'r wefan | Clerc |
| | • Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020 – 2035. Y dyddiad cau er mwyn rhoi adborth yw 31/1/20. Teimlwyd bod yr amserlen er mwyn rhoi adborth yn gyfyngedig; bydd y Clerc yn holi a oes cyfarfod cyhoeddus wedi cael ei drefnu. | Clerc |
| | • Newidiadau arfaethedig i Ffioedd Cynllunio – pawb i roi adborth yn ystod y cyfarfod ym mis Chwefror. | Pawb |
| | • Ceredigion Teg a Chyfartal (Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24) – cytunwyd y dylai Ceredigion barhau gyda'i pholisi presennol. | |
| | • Dosbarthwyd cofnodion Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ceredigion – y Clerc i holi a fydd modd anfon y rhain yn electronig yn y dyfodol. | Clerc |
| | • Gan bod cymaint o bapur yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol mai dim ond yr Agenda a'r Cofnodion fyddai'n cael eu hargraffu i bawb. Anfonir copi electronig o'r holl ddogfennau eraill (ac eithrio ar gyfer EJJ), ac fe'u dangosir ar sgrin yn y cyfarfod. Bwriedir treialu hyn yn ystod y cyfarfod ym mis Chwefror. | |
| **7. Ariannol** | • CThEM - £42.20<br>• Cyflog y Clerc - £169.20<br>• Treuliau'r Clerc £123.40 (Papur ac Inc Argraffu - £92; Stampiau - £31.40)<br>• Ashmole & Co £153.60 | |
| **8. Cyflog Y clerc** | Mae MD wedi cael cadarnhad gan Ashmole & Co bod cyfanswm y cyflog yn gywir. Bydd y clerc yn cyflwyno cyfanswm yr oriau gwaith yn ystod y cyfarfod nesaf. Cynhelir cyfarfod ar wahân i drafod oriau'r clerc | Clerc |
| **9. Cynllunio** | • Tynewydd, Ffostrasol – Cyfarfod safle i drafod llythyr ymateb M Beech yn Nhynewydd ar 8/1/20. MD, OD a CJ i fynychu.<br>• A191000 – Protherics. Ni fynegwyd unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r datblygiad gan Protherics UK; maent yn gyflogwr pwysig sy'n cyfrannu i'r economi leol. Fodd bynnag, rydym yn dymuno nodi'r canlynol:<br>1) Mae'r cais yn newid ymddangosiad y safle, heb unrhyw dystiolaeth yn y cynllun i guddio offer. Mae'r golygfeydd presennol o bob ardal yn ymdebygu i annedd amaethyddol, fodd bynnag, mae'r cyfarpar a'r cwndidau mecanyddol helaeth ychwanegol yn ymddangos yn fwy fel purfa! Gofynnwn i chi ystyried a oes unrhyw ffordd y byddai modd cuddio'r cyfarpar a'r offer gyda gorchuddion ychwanegol? | MD/OD/CJ |

| | | |
|---|---|---|
| | 2) Mae'n siomedig nad yw cwmni mawr o'r fath yn ystyried unrhyw fath o ddatblygiad ynni carbon isel neu adnewyddadwy (pwynt 21 y cais)<br><br>3) Mae'n ymddangos na fu unrhyw ymgynghori gyda deiliaid eiddo cyfagos (pwynt 23)<br><br>A191026 – Penrhiw-pâl Isaf – ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiad, a chytunwyd y dylid cefnogi'r cais, ond fel mesur dros dro nes y caiff yr annedd ei gwblhau | |
| **10. Materion Ardal** | • Arwydd Bwlch-y-groes (ochr Croes-lan) – Mae'r arwydd wedi cael ei guddio bron yn gyfan gwbl, ac mae mewn cyflwr gwael. Bydd y clerc yn cofnodi hwn fel ymholiad ar 'Clic'<br>• Canghennau sy'n hongian uwch ben – mae hyn yn parhau i fod yn broblem mewn rhai ardaloedd. Fe'i trafodir yn ystod y cyfarfod ym mis Chwefror.<br>• Gorchudd twll caead/twll ym Mhenrhiw-pâl – i'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf<br>• Glanhau/cynnal a chadw lloches bws Ffostrasol, i'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf | Clerc<br><br><br><br><br>OD |
| **11. Cynghorydd Newydd** | I'w drafod yn ystod y cyfarfod ym mis Chwefror | Clerc |
| **12. Ffurflenni Banc** | Eitem heb ei chwblhau. Bydd MD a CJ yn anfon ffurflenni ar ôl datrys y materion presennol. Anfonir llythyr o gŵyn at Brif Swyddog Gweithredol Nat West. | Clerc |
| **13. Rheolydd Pensiynau** | Cadarnhaodd MD y cafwyd cadarnhad gan Ashmole & Co bod CCT yn cydymffurfio'n llwyr. Nid oes gofyn cymryd unrhyw gamau pellach ar yr adeg hon – bydd angen adolygu hyn bob blwyddyn | |
| **14. Ceisiadau Ariannol** | Trafodwyd y ceisiadau canlynol ac roedd pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r meini prawf gofynnol. Cytunwyd dyfarnu fel a ganlyn:<br>• Clwb Bowls Rhydlewis - £130<br>• Eglwys St Michael, Troedyraur - £200<br>• Capel Twrgwyn - £200<br>• Eisteddfod Rhydlewis - £200<br>• Neuadd Rhydlewis - £200<br>• Eglwys Capel Cynon - £200<br><br>Llofnodir y sieciau yn ystod y cyfarfod ym mis Chwefror | |
| **15. Ffurflenni Grant** | Ychwanegwyd y ffurflen gyfredol i'r wefan | |
| **16. Archwiliad** | Ni chafwyd ymateb gan Derrick Evans er gwaethaf y ffaith yr anfonwyd negeseuon e-bost ac y gwnaethpwyd galwadau ffôn niferus<br><br>Cytunwyd y byddai 2019 – 2020 yn cael ei gwblhau ym mis Ebrill, ac y byddai llythyr eglurhaol yn cael ei anfon am y balans agoriadol | <br><br><br>Clerc |

| | | |
|---|---|---|
| **17.** | **Eitemau i'w trafod yn ystod y cyfarfod nesaf** | Materion Lleol: penodi cynghorydd newydd; Archwiliad; Ffurflenni Banc; Ceisiadau Ariannol; Archwilydd Mewnol; |
| **18.** | **Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | Neuadd Coed-y-bryn, 4 Chwefror 2020 am 7:30yh |

Llofnodwyd (Cadeirydd) ________________________________________

Llofnodwyd (Is-gadeirydd ________________________________________